Cofrestrfa Tir EF

# Cais i dynnu enw cydberchennog ymadawedig o'r gofrestr

DJP

## Cyn ichi ddechrau

**Dim ond ar farwolaeth cydberchennog ymadawedig pan fo'r ystad gyfreithiol yn breinio yn y goroeswr(wyr) y mae'r ffurflen hon i'w defnyddio.**

Bydd yn rhaid ichi wybod 'rhif teitl' yr eiddo ac enw llawn y perchennog ymadawedig fel y'i gwelir ar ei 'gofrestr teitl' – gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon wrth chwilio am 'property information' ar GOV.UK.

Wrth lenwi eich cais, rhaid ichi wneud y canlynol:

- teipio eich atebion neu eu hysgrifennu mewn inc du ac mewn PRIF LYTHRENNAU
- llenwi'r cais, gan ddefnyddio dalenni ychwanegol os oes eu hangen (chwiliwch ar GOV.UK am 'HM Land Registry 'continuation sheet')

**Os ydych yn drawsgludwr**, (ymarferydd cymwysedig, fel y'i diffinnir yn rheol 217A o Reolau Cofrestru Tir 2003), mae gan rai adrannau gyfarwyddyd ychwanegol neu gwestiynau eraill ichi eu hateb.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

Ni all Cofrestrfa Tir EF roi cyngor cyfreithiol.

| | |
|---|---|
| | 1 Yr awdurdod lleol sy'n gwasanaethu'r eiddo: |
| Gallwch ddod o hyd i 'rif teitl' yr eiddo ar GOV.UK – chwiliwch am 'property information'. | 2 Rhif(au) teitl: |
| Os nad oes gan yr eiddo gyfeiriad, rhowch ddisgrifiad yn lle. Er enghraifft 'tir yn cyffinio â 2 Pen-twyn'. | 3 Cyfeiriad yr eiddo (gan gynnwys y cod post llawn, os oes un): |
| Rhaid ichi ddewis naill ai rhan A **neu** B, **ac** yna anfon y dystiolaeth o farwolaeth briodol gyda'ch ffurflen gais wedi ei llenwi.<br><br>Caiff unrhyw ddogfen a ddarperir ei sganio ac efallai caiff ei dinistrio.<br><br>Pan fo dogfennau mewn iaith dramor, | 4 Tystiolaeth o farwolaeth a anfonwyd:<br>**A.** Copi swyddogol o dystysgrif marwolaeth (neu gopi ardystiedig)<br>**B**. Copi swyddogol o brofiant / llythyrau gweinyddu (neu gopi ardystiedig) |

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO 02/25)

| | | |
|---|---|---|
| rhaid ichi gyflwyno cyfieithiad wedi ei gadarnhau.<br><br>**Os ydych yn drawsgludwr**, gallwch gwblhau adran 4A, B neu C. | | **C**. Fi yw trawsgludwr y ceisydd ac rwy'n ardystio y bu farw<br><br>(enw'r ymadawedig)<br>ar<br>a [chafodd ei eni ar ]<br>[neu] [yr oedd yn oed] ar adeg ei farwolaeth.<br>**NEU**<br>Rwy'n dal y gwreiddiol neu gopi swyddogol o'r dystysgrif marwolaeth, grant profiant neu lythyrau gweinyddu ar gyfer<br><br>(enw'r ymadawedig)<br><br>Llofnod y trawsgludwr ____________________<br>Dyddiad |
| Ychwanegwch eich enw llawn, ynghyd ag enw unrhyw un arall sy'n gwneud y cais hwn.<br><br>**Os ydych yn drawsgludwr**, rhaid mai enw(au) eich cleient(cleientiaid) yw hwn. | 5 | Y ceisydd(ceiswyr): |
| **Rhaid** ichi ychwanegu enw a chyfeiriad – byddwn yn eu defnyddio i ddychwelyd dogfennau ar ôl i'ch cais gael ei gwblhau neu os oes angen inni holi am ragor o wybodaeth.<br><br>**Os ydych yn drawsgludwr**, dim ond at gyfeiriadau ebost y byddwn yn anfon 'llythyrau rhybudd am ddileu'. | 6 | **Rhaid ichi ychwanegu eich enw a'ch cyfeiriad at yr adran hon – ni allwn brosesu'ch cais hebddynt:**<br><br>Anfonir y cais hwn at Gofrestrfa Tir EF gan:<br><br>Enw:<br>Cyfeiriad:<br><br>Cyfeiriad ebost (dewisol):<br>Rhif ffôn:<br><br>**I'w gwblhau gan drawsgludwyr yn unig:**<br>Cyfeirnod:<br>Rhif allwedd: |
| Cofiwch mai dim ond lle mae perchennog/perchnogion cofrestredig ar ôl/yn goroesi y dylid defnyddio'r ffurflen hon. Os felly, llenwch adran A ac C.<br><br>**Os ydych yn drawsgludwr**, llenwch adran B ac C. | 7 | Cais<br>**A.** Rwyf/Rydym:<br>**B.** Rwyf/Rydym fel trawsgludwyr:<br><br>**C.** yn gwneud cais gyda hyn i dynnu o'r gofrestr enw:<br><br>a fu farw ar:<br><br>yn (y lle y bu farw): |
| Cwblhewch yr adran hon dim ond os yw'r enw a'r cyfeiriad ar y dystysgrif marwolaeth, profiant neu lythyrau gweinyddu'n wahanol i'r manylion ar y gofrestr teitl. | 8 | Rwyf/Rydym yn ardystio mai:<br>(enw'r ymadawedig, fel y'i dangosir yn adran 4 tystiolaeth marwolaeth)<br>yw'r un unigolyn a ddangosir yng nghofrestr teitl yr eiddo. |

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO 02/25)

Rhaid i bob ceisydd a enwir yn adran 5 lofnodi’r cais hwn.

**Os ydych yn drawsgludwr,** arwyddwch ar ran y ceisydd(ceiswyr).

**Anfonwch y ffurflen gais hon a’r dystiolaeth o farwolaeth at:**
HM Land Registry Citizen Centre,
PO Box 7806, Bilston, WV1 9QR.

**Os ydych yn drawsgludwr**, anfonwch y ffurflen gais trwy e-DRS at:

HM Land Registry
(rhowch enw swyddfa eich tîm cwsmer neu eich swyddfa agosaf, megis ‘Fylde’),
PO Box 7806, Bilston, WV1 9QR.

neu

HM Land Registry
(rhowch enw swyddfa eich tîm cwsmer neu eich swyddfa agosaf, megis ‘Fylde’),
DX 427301 Bilston 3.

9 Llofnod: ______________________________

Dyddiad:

**Rhybudd**

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu’n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu’n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu’r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni’r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a’r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu’r ddau.

Os nad ydych yn llenwi’r ffurflen hon gyda’r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae’r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy’n ymwneud â chais a gyflwynir i’r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i’r cyhoedd eu harchwilio a’u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i’r rhan honno o’r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO 02/25)